# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Sŵau ac Atyniadau Anifeiliaid |
| Dyddiad y cyfarfod | 30/09/20 |
| Lleoliad: | Cyfarfod rhithwir (wedi'i gynnal ar gyfrif Zoom Cymdeithas Sŵau ac Acwaria Prydain, sef BIAZA) |

## Yn bresennol:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Darren Millar<br>Mandy Jones<br>Janet Finch-Saunders<br>Caroline Jones<br>Angela Burns<br>Mark Isherwood | AS |
| Y Cynghorydd Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Dr Cerian Tatchley<br>Andrew Hall | Cymdeithas Sŵau ac Acwaria Prydain ac Iwerddon (BIAZA) |
| Nick Jackson | Y Sŵ Fynydd Gymreig |
| Mike Colwill<br>Anthony Williams | Plantasia |
| Dr Georgina Webb | Ymchwilydd Grŵp y Ceidwadwyr |
| Collette Macdonald | SeaQuarium y Rhyl |
| Jules Arrowsmith | Parc Fferm Manorafon |
| Graham Garen | Noddfa Epaod a Mwncïod Cymru |

| | |
|---|---|
| | |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croesawodd Darren Millar bawb i gyfarfod agoriadol y Grŵp Trawsbleidiol ar Sŵau ac Atyniadau Anifeiliaid.

Cafodd Darren ei gynnig fel Cadeirydd y Grŵp gan Janet Finch Saunders, a chafodd ei eilio gan Caroline Jones. Cafodd Darren ei ethol yn gadeirydd y Grŵp.

Croesawodd Darren y rhai a oedd yn siarad ar ran BIAZA a'r Sŵ Fynydd Gymreig. Siaradodd Dr Cerian Tatchley o BIAZA am y sefyllfa gyffredinol y mae sŵau yng Nghymru yn ei hwynebu. Nododd Nick Jackson o'r Sŵ Fynydd Gymreig effaith ariannol y cyfnod clo ar y sw, a'r effaith ar ei gweithrediadau, gan gynnwys y gwaith cadwraeth y mae'r sw yn ei wneud.

Er bod sŵau wedi elwa ar becynnau eraill, nodwyd y ffaith nad oedd unrhyw gefnogaeth wedi'i theilwra ar gael ar gyfer sefydliadau gofal anifeiliaid yng Nghymru. Nodwyd bod hyn er gwaethaf yr heriau unigryw sydd ynghlwm wrth ofalu am anifeiliaid arbenigol a chymhleth. Mae cydnabyddiaeth bod hon yn her y bydd angen cymorth yn ei chylch gan Lywodraethau ledled y byd a chan wledydd eraill y DU.

Gofynnodd Angela Burns am faint y bygythiad dan sylw, ynghyd â'r bygythiad o gau. Dywedodd BIAZA a'r Sŵ Fynydd Gymreig fod y sefyllfa y mae sŵau ac acwaria yn ei hwynebu yn un ansicr, gan nodi y byddai cyfyngiadau pellach yn cynyddu'r heriau a ddaw yn sgil y pandemig.

Gofynnodd Mandy Jones am yr angen i fynd i'r afael â'r broblem o erlid adar ysglyfaethus yng nghefn gwlad. Dywedodd Cerian Tatchley o BIAZA y byddai'r sefydliad yn hapus i helpu Mandy gysylltu â chanolfannau adar ysglyfaethus sy'n craffu ar y materion hynny.

Gofynnodd Mark Isherwood am enghreifftiau eraill o gymorth, ac eithrio cymorth ariannol, y gellid deddfu yn eu cylch. Tynnodd Nick Jackson sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol bod atyniadau sy'n ddiogel o safbwynt COVID-19, ac sy'n gallu dod â buddion llesiant i ymwelwyr, yn sicrhau eu bod yn cael eu heithrio o gyfnodau clo. **Gofynnodd y siaradwyr i Aelodau'r Senedd gyflwyno'r achos dros ganiatáu i ddeiliaid trwydded sŵ barhau i groesawu ymwelwyr, hyd yn oed pe bai mathau eraill o gyfyngiadau neu gyfnodau clo yn dod i rym.**

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y ffaith nad oedd Lesley Griffiths, y Gweinidog sy'n gyfrifol am Sŵau, wedi cynnal cyfarfod â'r diwydiant sŵau a bod angen unioni'r sefyllfa honno.

Diolchodd Darren i bawb am ddod i'r cyfarfod, gan awgrymu y dylid anfon llythyrau at Lesley Griffiths a'r Prif Weinidog.

| |
|---|
| |
| Materion Eraill |